

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4076
a'r A40 (Hwlfordd i
Aberdaugleddau, Sir Benfro)
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro
a Dim Goddiweddyd) 2021

The A4076 & A40 Trunk Roads
(Haverfordwest to Milford Haven,
Pembrokeshire) (Temporary Speed
Restrictions & No Overtaking)
Order 2021

Gwnaed 12 Hydref 2021

Made 12 October 2021

Yn dod i rym 20 Hydref 2021

Coming into force 20 October 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4076 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4076 trunk road and the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A4076 a'r A40 (Hwlfordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Hydref 2021.

1. The title of this Order is the A4076 & A40 Trunk Roads (Haverfordwest to Milford Haven, Pembrokeshire) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2021 and this Order comes into force on 20 October 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau a chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Hydref 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau a gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A4076 Haverfordwest to Milford Haven trunk road and the A40 London to Fishguard trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 20 October 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Restrictions and prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in the Schedules to this Order.

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedules to this Order during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6.—(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Hydref 2021

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Application

6.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

7. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in the Schedules to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 October 2021

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen, Hwlffordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlffordd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 sy'n arwain at Brickhurst Park, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan

SCHEDULE 1

Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 190 metres south of its junction with Salutation Square Roundabout to a point 43 metres east of its junction with Merlin's Bridge Roundabout, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest to a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road leading to Brickhurst Park, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 103 metres south of its junction with

Sunnycroft, Johnston hyd at bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlfordd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen (gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol y gylchfan) hyd at bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlfordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 i Brickhurst Park hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Victoria, Aberdaugleddau, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol y gylchfan honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square (gan gynnwys ei cherbyttffordd gylchredol) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlfordd.

Sunnycroft Roundabout, Johnston to a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton.

SCHEDULE 2

Temporary 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the A4076 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout, Haverfordwest to a point 190 metres south of that junction.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 43 metres east of its junction with Merlins Bridge Roundabout (including the circulatory carriageway of the roundabout) to a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road to Brickhurst Park to a point 103 metres south of its junction with Sunnycroft Roundabout, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton to a point 140 metres west of its junction with Victoria Bridge Roundabout, Milford Haven, including the circulatory carriageway of that roundabout.

The length of the A40 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout (including its circulatory carriageway) to its junction with Scotchwell Roundabout, Haverfordwest.